# Y diweddaraf am bolisi'r UE (EU2011.05):

# Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredn (PAC)

## Diweddarwyd: 17 Hydref 2011

## Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y Cynigion

### Cyflwyniad

Ar 12 Hydref, cyheoddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei becyn o gynigion deddfwriaethol ar gyfer **diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**[1], gyda'r nod meddai:

> ...o gryfhau cystadleurwydd a chynaliadwyedd amaeth a chynnnal ei bresenoldeb ym mhob rhanbarth, er mwyn gwarantu cynhyrchu bwyd iach a safonol ar gyfer dinasyddion Ewrop, i gynnal yr amgylchedd a helpu i ddatblygu ardaloedd gwledig

### Y Pecyn Deddfwriaethol

Mae'r pecyn deddfwriaethol yn cynnwys saith o reoliadau, ac mae pedwar yn benodol yn berthnasol i Gymru:

- Rheoliad Taliadau Uniongyrchol COM(2011)625
- Rheoliad Datbygu Gwledig COM(2011)627
- Ariannu, Rheoli a Monitro'r PAC ("Rheoliad Llorweddol") COM(2011)628
- Rheoliad Trefniadaeth y Farchnad Gyffredin (CMO)

Yn ychwanegol at hyn, caiff yr offeryn ariannu Datblygu Gwledig (EAFRD) ei ddwyn o fewn fframwaith y **Rheoliad Darpariaethau Cyfferdin** newydd, a gyhoeddwyd ar 6 Hydref fel rhan o'r pecyn o gynigion deddfwriaethol ar gyfer Polisi Cydlyniant yr UE (Cronfeydd Strwythurol yr UE) ar gyfer 2014-2020[2]. Mae hyn yn rhoi rhaglenni Datblygu Gwledig o fewn **Fframwaith Strategol Cyffredin** sy'n canolbwyntio ar gyflwyno blaenoriaethau craidd **Strategaeth Ewrop 2020**.

Mae cynnwys mesurau penodol i gefnogi **datblygu trefol cynaliadwy** o fewn rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol (a diffyg cyfeiriadau penodol at ardaloedd gwledig) yn mynnu'r cwestiwn a fydd cyllid Datblygu Gwledig yn cael ei ystyried fel y prif lwybr ar gyfer ariannu datblygiad ehangach y gymuned wledig. Bydd Datblygu Gwledig hefyd yn destun nifer o "**amodoldebau**" a gyflwynwyd yn y Rheoliad Darpariaethau Cyffredin, gyda'r bygythiad o atal neu ganslo'r cyllid os na chaiff yr amodoldebau hyn eu bodloni.

Yn olaf, mae pecyn deddfwriaethol diwygio'r PAC yn cyfeirio'n helaeth at Ddeddfau Dirprwyedig a Deddfau Gweithredu a gaiff eu cyflwyno gan y Comisiwn. Bydd rhai o'r rhain o bwys arbennig o ran penderfynu sut y caiff erthyglau yn y pecyn deddfwriaethol eu gweithredu'n ymarferol, a bydd yn werth eu hystyried pan gânt eu cyhoeddi.

### Rheoliad Taliadau Uniongyrchol

- **"System haenog" newydd o Daliadau Uniongyrchol** yn disodli'r Taliad Sengl (a'r Taliad Ardal Sengl) a gyflwynwyd gan ddiwygiadau 2003. Bydd Taliadau Uniongyrchol yn cynnwys y cydrannau a ganlyn:
- **Taliad Fferm Sylfaenol:** Bydd y Taliad Fferm Sylfaenol oddeutu 48-69 y cant o'r taliad uniongyrchol. Caiff ei dalu i bob ffermwr cymwys ar sail "hawliadau" newydd a fydd yn berthnasol o 2014 ymlaen. Bydd y rhain yn seiliedig ar ddaliadau

---

[1] Ewch i **Wefan y Comisiwn Ewropeaidd** i weld y cynigion deddfwriaethol

[2] Ewch i'r **Diweddariad ar Bolisi'r UE (EU2011.04)**

tir yn 2011.

- **Dyraniad hanesyddol o Daliad Fferm Sylfaenol i gael ei ddileu'n raddol:** gwerth cyfartal i fod yn gymwys i ddyraniadau cenedlaethol neu ranbarthol erbyn 2019. Y gallu i dalu uchafswm o 60 y cant o daliadau sylfaenol ar sail hanesyddol yn 2014, ond i gael eu dileu'n raddol.
- **Taliad "gwyrdd"** i gyfrif am o leiaf 30 y cant o'r uchafswm cenedlaethol blynyddol a ddefnyddir ar gyfer taliadau uniongyrchol. Mae hawl gan ffermwyr organig i gael hwn yn awtomatig. Mae ffermwyr nad ydynt yn ffermwyr organig yn gymwys pan meant yn arfer dulliau sydd o fudd i'r hinsawdd ac i'r amgylchedd, a gaiff ei ddiffinio fel a ganlyn:
    - **Arallgyfeirio cnydau:** trin o leif dri chnwd ar dir âr ar ffermydd sydd o leiaf dair hectar (ha) ac nad yw wedi ei adal yn fraenar neu wedi'i drin gyda chnydau o dan ddŵr
    - **Glaswelltir parhaol i gael ei gadw** (ond gyda'r posibilrwydd y caiff hyd at bump y cant o'r tir hwnnw ei droi at ddefnydd arall)
    - **Ardaloedd ffocws ecolegol:** o leiaf 7 y cant o dir cymwys y ffermwr (caiff glaswelltir parhaol ei eithrio)
- **Ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau naturiol:** posibilrwydd o ddefnyddio hyd at bump y cant o'r uchafswm cenedlaethol i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i ffermwyr yn yr ardaloedd hyn (a gaiff eu diffinio ar sail meini prawf gwrthrychol a nodir yn y rheoliad). Nid yw hyn yn disodli'r cymorth ar gyfer yr ardaloedd hyn o dan Golofn 2.
- **Taliad ychwanegol i ffermwyr ifanc: taliad ychwanegol gofynnol ar gyfer ffermwyr ifanc gydag** uchafswm o ddau y cant o'r uchafswm cenedlaethol blynyddol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer taliadau. Y diffiniad o ffermwyr ifanc yw ffermwyr sy'n sefydlu daliad amaethyddol am y tro cyntaf neu o fewn pum mlynedd o gyflwyno cais am y Taliad Fferm Sylfaenol ac sydd o dan 40 oed.
- **Arian wrth gefn cenedlaethol** o hyd at dri y cant o uchafswm y taliadau sylfaenol cenedlaethol.
- **Capio a gostwng cynyddol** mewn taliadau i ffermwyr mawr. Mae hyn yn effeithio ar daliadau blynyddol ar gyfradd rhwng €150,000 a €300,000 (y taliad uchaf). Mae'n darparu ar gyfer didyniadau cyflogau (gan gynnwys trethi a chyfraniadau cymdeithasol). Bydd yr arian a ddaw o ddefnyddio'r cam gweithredu hwn yn cael ei gadw gan Aelod Wladwriaethau a'i ddefnyddio i ariannu gweithgareddau arloesol busnesau ffermio o dan y Gronfa Ddatblygu Gwledig.
- **Dosbarthu arian yn decach rhwng Aelod Wladwriaethau:** mae'r Comisiwn wedi cynnig codi'r dyraniad i Aelod Wladwriaethau newydd a mynd i'r afael â'r rhagfarn o ddyraniadau hanesyddol y PAC rhwng Aelod Wladwriaethau. Mae'n cynnwys ymrwymiad i gau'r bwlch rhwng Aelod Wladwriaethau a gaiff 90 y cant o daliadau cyfartalog yr UE i draean o dan Golofn 1. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig symud tuag at ddyraniad gwastad (fesul hectar yr UE) yn ystod y cyfnod Fframwaith Ariannol Amlflwydd (MFF) nesaf (2021-2028)
- **Cyflwyno diffiniad newydd o ffermwyr gweithredol:** i fynd i'r afael â'r broblem o ffermwyr soffa. (i) rhaid i werth taliadau uniongyrchol fod yn uwch na phump y cant o gyfanswm y derbyniadau o weithgareddau nad ydynt yn weithgareddau amgylcheddol (ii) neu caiff lleiafswm y gweithgaredd yn ôl diffiniad yr Aelod Weladwriaeth (llywodraethau cenedlaethol), ei wneud ar ardal y tir dan sylw.
- **Cynllun ffermwyr bach:** byddai ffermwyr sy'n dewis ymuno â'r cynllun yn cael eu heithrio rhag

gorfod gweithredu'r gofynion Gwyrdd a amlinellir uchod. Fodd bynnag, dim ond rhwng €500 a €1,000 y byddent yn gymwys i'w gael o'r PAC. Rhaid i ffermwyr wneud cais erbyn 15 Hydref 2014 fan bellaf i gymryd rhan yn y cynllun hwn. Rhaid i hyd at ddeg y cant o daliadau uniongyrchol gael eu dyrannu ar gyfer cynlluniau o'r fath.

- **Hyblygrwydd rhwng colofnau (sef trawsgyweiriad gwirfoddol):** darperir ar gyfer trosglwyddo hyd at **ddeg y cant o Golofn 1 i Golofn 2 A** hyd at **bump y cant o arian Colofn 2 i Golofn 1** ar gyfer gwledydd sy'n cael llai na 90 y cant o gyfartaledd dyraniad yr UE i Biler 1 (mae'r DU o fewn y categori hwn)
- **Cysylltu cymorth yn wirfoddol (Erthyglau 38-41):** posibilrwydd i Aelod Weladwriaethau ddefnyddio **hyd at bump y cant o'u huchafswm cenedlaethol blynyddol** (a gallai fod yn uwch na 10 y cant mewn rhai achosion) i roi cymorth i rai sectorau arbennig (mae hyn yn cynnwys llaeth a chynnyrch llaeth, cig oen a chig eidion) sy'n mynd drwy rhai anawsterau penodol ac sy'n arbennig o bwysig am resymau economaidd a / neu gymdeithasol a / neu amgylcheddol.

## Rheoliad Datblygu Gwledig

Mae Datblygu Gwledig yn cael ei ail-ffocysu o amgylch **chwe blaenoriaeth** sy'n unol â strategaeth Ewrop 2020, sy'n cwmpasu gwybodaeth ac arloesi, cystadleurwydd ardaloedd gwledig, datblygu'r gadwyn fwyd a rheoli risg, diogelu ecosystemau, effeithlonrwydd adnoddau, a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, tlodi a datblygu economaidd.

Mae pwyslais cryf ar ddatblygu **potensial economaidd a chystadleurwydd** y sector amaeth a'r economi wledig, a bydd y gwasanaethau cynghori gwledig a chefnogaeth datblygu busnesau gwledig ar gael i fusnesau bach a chanolig yn yr economi wledig nad ydynt yn ymwneud â gweithgareddau amaethyddol na ffermio.

**Nid oes unrhyw leiafswm dyraniadau wedi ei bennu ymlaen llaw** rhwng blaenoriaethau a gall Aelod Wladwriaethau ddewis o restr o fesurau i gyflenwi'r blaenoriaethau hyn. Mae dau eithriad i hyn:

- **lliniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd**, gyda gofyniad bod 25 y cant o'r holl gyllideb yn mynd tuag at weithgareddau yn y maes hwn, gan gynnwys y mesur amaeth-amgylchedd-hinsawdd
- bod o leiaf bump y cant o'r gyllideb yn mynd tuag at **raglenni LEADER** (partneriaethau datblygu lleol).

Mae'r rheoliad hefyd yn mynd i'r afael â thegwch o ran dosbarthu adnoddau rhwng Aelod Wladwriaethau, gan gylwyno'r angen i ystyried "meini prawf gwrthrychol" yn ogystal â dyraniadau hanesyddol. Bydd y manylion ynghylch hyn yn cael eu penderfynu mewn Deddf Weithredu.

Bydd cyfraddau cydgyllido yn amrywio yn ôl statws y rhanbarthau. O ran Cymru, byddai hyn yn golygu 85 y cant ar gyfer y gorllewin a'r Cymoedd (fel rhanbarth lai datblygedig) a 50 y cant ar gyfer gweddill Cymru. Gellir codi'r isafswm trothwy ar gyfer rhaglenni sy'n ymwneud ag arloesedd a throsglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, sefydlu grwpiau cynhyrchu a chefnogaeth i ffermwyr ifanc.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi cynnig mesurau fyddai â'r bwriad o fynd i'r afael ag amrywiaeth ariannol mewn marchnadoedd amaethyddol drwy well reolaeth o risg, gan gynnwys cronfeydd yswiriant cydfuddiannol (ar gyfer cnydau a'r tywydd) ac offeryn sefydlogi incwm.

Gall Aelod Wladwriaethau ddyrannu 10 y cant o gyllid i ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau naturiol, a benderfynnir drwy ddefnyddio meini prawf bio-ffisegol gwrthrychol.

Mae mesur penodol wedi cael ei greu ar gyfer ffermio organig er mwyn godi ei welededd, ac mae mesurau hefyd wedi'u hanelu at annog ffermwyr ifanc.

Mae'r rheoliadau hefyd yn creu **partneriaeth arloesi newydd** ar gyfer amaethyddiaeth a **gwobr arloesi**. Caiff y ddau eu hariannu o'r gyllideb Datblygu Gwledig.

## Rheoliad Llorweddol

Mae **mesurau trawsgydymffurfio** wedi bod yn eu lle mewn rheoliad llorweddol ar gyfer cyllid a monitro gan y byddant yn gymwys i holl gronfeydd PAC am y tro cyntaf ac nid i daliadau uniongyrchol yn unig.

Mae'r Comisiwn wedi ceisio **symleiddio ac addasu'r ffyrdd hyn o reloi'r amrywiaeth o ddaliadau amaethyddol ar hyd a lled yr UE**, a cheisio tynhau'r rheolau hefyd er mwyn gwneud mwy o wiriadau mewn rhanbarthau sy'n mynnu peidio â chydymffurfio â rheolau'r UE, a llai yn digwydd mewn rhanbarthau sydd yn cydymffurfio.

Mae nifer y **Gofyniadau Rheoli Statudol** wedi gostwng i 13 a nifer y **Cyflyrau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)** wedi codi i wyth. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i ffermwyr gydymffurfio'n ychwanegol â gofynion y Gyfarwyddeb Ddŵr a'r Gyfarwyddeb Plaladdwyr unwaith y daw'r oblygiadau ar ffermwyr i rym. Caiff manylion y gofynion trawsgydymffurfio eu hamlinellu yn Atodiad II.

Mae'r cynigion hefyd yn ceisio **ehangu'r cwmpas ar gyfer gorfodi cosb ar Aelod Wladwriaethau'r UE** pan fydd eu hasiantaethau talu yn methu â gorfodi rheolau'r UE yn ddigonol ar ffermydd, a gwobrwyo'r gwledydd hynny sy'n gallu cynnal cyfradd camgymeriadau o lai na dau y cant dros nifer o flynyddoedd.

Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad cyn diwedd 2017 – a phob pedair blynedd wedyn – ar **effaith y PAC** ar ei dri brif flaenoriaeth, sef cynhyrchu bwyd hyfyw, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a datblygu tiriogaethol cytbwys.

## Rheoliad Trefn Gyffredin Marchnadoedd Amaethyddol (CMO)

Mae'r rheoliad yma yn nodi'r rheolau ar gyfer **trefn gyffredin marchnadoedd amaethyddol**. Mae'r rheoliad yn amlinellu'r rheolau sy'n llywodraethu cymorth storio, cymorth ar gyfer storio preifat, safonau marchnata a dynodiadau tarddiad a dangosyddion daearyddol.

Mae'r rheoliad yn ymgorffori'r cynigion deddfwriaethol a gyflwynwyd fel rhan o **becyn llaeth** y Comisiwn, sydd â'r nod o gryfhau sefyllfa cynhyrchwyr llaeth wrth gynnal trafodaethau. Mae'r rheoliad, hefyd, yn darparu ar gyfer cyflwyno contractau ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer y sector cynhyrchion llaeth.

Yn ogystal, mae'r rheolau ehangu'r rheoliad sy'n ymwneud â **chydnabod Sefydliadau Cynhyrchu** a sefydliadau rhynganghennau i gwmpasu yr holl sectorau. Mae hyn yn ymgais i wella sefyllfa'r ffermwyr wrth gynnal trafodaethau.

## Dyraniad ariannol i'r PAC?

Cafodd dyraniad cyllid arfaethedig y PAC ei nodi yn y Fframwaith Ariannol Amlflwydd (MFF) a gyhoeddwyd ar 30 Mehefin[3], ac sy'n destun trafodaeth gyfochrog ar wahân. Mae hwn yn cynnig **€417.4 biliwn i PAC** (tua 40 y cant o gyfanswm cyllideb yr UE), gyda €317.2bn i Golofn 1 a €101.2bn i Golofn 2 (Datblygu Gwledig).

Mae hefyd yn rhagweld **€17.1bn yn ychwanegol** o elfennau eraill o Gyllideb yr UE (gan gynnwys €2.5bn ar gyfer diogelwch bwyd, €2.8bn mewn cymorth bwyd i bobl ddifreintiedig, €3.9bn mewn cronfa argyfwng wrth gefn ar gyfer amaethyddiaeth).

## Amserlen a phroses

Bydd y trafodaethau ar y cynigion i ddiwygio'r PAC a'r cynigion MFF ehangach yn cael eu cynnal yn ystod 2012 ac o bosibl ymlaen i 2013 (a thu hwnt). Am y tro cyntaf, bydd y PAC yn cael ei fabwysiadu drwy

---

[3] Ewch i'r **Diweddariad ar Bolisi'r UE 2011 (EU2011.02)**

weithdrefn cyd-benderfyniad, lle mae angen cytundeb Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion (gyda'r Comisiwn yn gweithredu fel brocer) cyn y gellir cytuno ar y testunau cyfreithiol terfynnol.

Mae hyn yn golygu newid mawr i'r trafodaethau ac yn cyflwyno elfen o ansicrwydd o ran hyd a dynameg y trafodaethau. Ewch i'r adran ***Cynnydd y goflen yn Sefydliadau'r UE*** isod i gael rhagor o fanylion am y broses hon.

## Cyd-destun cefndir y cynnig

### Proses barhaus o ddiwygio

Mae diwygio wedi bod yn broses barhaus yn y PAC dros y ddau ddegawd diwethaf yn arbennig. Cyflwynwyd y diwygiadau diweddaraf yn 2003 pan gyflwyywyd y taliad unigol (a thaliad ardal unigol) gyda'r nod o ddatgysylltu cymorth o gyhyrchu, a thrwy Wiriad Iechyd y PAC yng nghanol y tymor yn 2008.

### Trafodaeth gyhoeddus ar ddiwygio wedi 2013

Cafodd trafodaeth gyhoeddus ynghylch diwygio'r PAC ei lansio yn ystod hanner cyntaf 2010 gan Daclan Cioloș Comisiynydd Amaeth yr UE. Ym mis Tachwedd 2010, cafodd gohebiaeth ynghylch y PAC a Strategaeth Ewrop 2020 ei chyhoeddi, ynghyd ag ymgynghoriad cyhoeddus  (a gaewyd ym mis Ionawr 2011.)

Cynhaliodd y Comisiwn drafodaethau â Gweinidogion Amaeth yn y Cyngor a Senedd Ewrop drwy gydol y broses hon, gyda'r ail yn cyflwyno ei safbwyntiau mewn dwy farn. Cyflwynwyd y safbwynt cyntaf gan George Lyons ASE Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban (ym mis Mehefin 2010), a'r ail gan Albert Dess ASE o'r Almaen (Plaid Pobl Ewrop), ar Ewrop 2020 a PAC (a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2011)[4].

[4] **Adroddiad George Lyon ASE**. **Adroddiad Albert Dess ASE**

### Cyd-destun argyfwng a diogelwch

Mae'r drafodaeth hon wedi digwydd yng nghyd-destun yr argyfwng ariannol, argyfwng Eurozone, argyfwng diogelwch bwyd yn 2009 (yn arbennig), pryderon cynyddol ynghylch diogelwch ynni, mewnfudo, yn ogystal â'r ffocws ar newid yn yr hinsawdd a newid demographig.

Mae Strategaeth Ewrop 2020 (ffocws ar Dwf Doeth, Cynaliadwy ac Arloesol) a Llywodraeth Economaidd gryfach yn darparu'r fframwaith strategol lle mae'r Comisiwn yn ceisio moderneiddio'r gyllideb, i wynebu'r heriau newydd sy'n wynebu Ewrop, ac mae Comisiynydd Amaeth yr UE wedi ceisio ailsefydlu PAC fel un o brif elfennau cyllideb yr UE i fodloni amcanion Ewrop 2020.

## Perthnasedd i Gymru

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn elwa o tua **€3 biliwn** o gyllid o'r PAC:

- gyda tua **€370 y flwyddyn** yn mynd i ffermwyr fel taliadau sengl o dan Golofn 1 o'r PAC
- tua **€340m am y cyfnod 2007-2013** o dan Golofn 2 o'r PAC ar gyfer Rhaglen Ddatblygu Wledig Cymru

Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cynhaliodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig **ymchwiliad i ddyfodol y PAC**, gan fabwysiadu ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2010. Dilynnwyd hyn gan ymweliad yr Is-bwyllgor â Brwsel ym mis Medi 2010, pan gynhaliwyd cyfarfod â Paolo de Castro, Cadeirydd y Pwyllgor Amaeth yn Senedd Ewrop (Eidalwr, y Grŵp Sosialaidd a Democrataidd), swyddogion o Gabinet Comisiynydd Amaeth yr UE, swyddogion o'r UKREP, a swyddogion o nifer o ranbarthau ac Aelod Wladwriaethau[5].

[5] **EUR(3)-02-11 : Trawsgrifiad o'r cyfarfod ar 1 Chwefror 2011**

Mae'r sector amaeth yng Nghymru yn cynnwys, yn bennaf, ffermydd bach a chanolig yn canolbwyntio ar dda byw a llaeth. Ar hyn o bryd, mae 80 y cant o dirfas amaethyddol Cymru yn Ardal Llai Ffafriol mewn cydnabyddiaeth o'r rhwystrau naturiol y mae ffermwyr Cymru yn eu hwynebu.

Mae hen hanes o weithredu cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn llwyddiannus yng Nghymru a gwerthfawrogir hyn yn yr UE, ond yr hen hanes hefyd yw mai cyfran cymharol fach o gyllideb datblygu gwledig Ewrop a gafodd. Ar hyn o bryd, caiff taliadau uniongyrchol a gaiff ffermwyr Cymru o dan y PAC eu dyrannu ar sail cyfeirnod hanesyddol.

Fel y rhan fwyaf o'r DU, mae gan Gymru sector landlordiaid a fferm denant fawr. Mae'r system hon yn gymharol unigryw i'r DU ac ni chaiff ei dyblygu mewn llawer o lefydd eraill yn yr UE. Yn y gorffennol, mae'r DU wedi cael trafferth cael cydnabyddiaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd am faterion sy'n deillio o ganlyniad i'r strwythur hwn.

Prif feysydd diddordeb allweddol trafodaethau'r PAC yng Nghymru fydd:

- Taliadau uniongyrchol gwyrdd;
- Symud oddi wrth sail hanesyddol ar gyfer dyrannu taliadau uniongyrchol i sail ardal;
- Capio taliadau uniongyrchol;
- Y diffiniad o Ffermwr Gweithredol;
- Y cynllun ffermwyr bach;
- Cynigion ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol;
- Cymoth i ardaloedd o gyfyngiadau naturiol;
- Cymorth i ffermwyr llaeth;
- Newidiadau i ofynion trawsgydymffurfio
- Effaith cyflwyno'r CSF a Chontract Partneriaeth, a sut y caiff y rhain eu trafod yn y DU
- Eglurhad o sut y caiff datblygu'r economi wledig ehangach ei gefnogi (drwy Ddatblygu Gwledig a Chronfeydd Strwythurol yr UE)

## Safbwynt Llywodraeth y DU

***Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol yn yr wythnosau nesaf a fydd yn nodi ei hymateb i gynigion y Comisiwn. Caiff yr adran hon ei diweddaru i adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y Memorandwm Esboniadol newydd yn ailddatgan safbwynt Llywodraeth y DU, fel y nodwyd yn ei hymateb i Bapur Adolygu Cyllideb yr UE. Mae crynodeb o hynny isod. Cyfeirir hefyd at Femoranda Esboniadol eraill Llywodraeth y DU.***

Cafodd safbwynt ddiweddaraf Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r PAC ei nodi yn ei **hymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2011**:

> ...Felly mae'r DU yn ystyried mai'r prif flaenoriaethau ar gyfer diwygio'r PAC yw:
>
> - Cyllideb PAC sylweddol is, gyda ffocws gwahanol i wella gwerth am arian.
>
> - Dylai mesurau Colofn 2 gael eu gwella, yn arbennig ar gyfer darparu cynlluniau amaeth-amgylcheddol.
>
> - Dylai mesurau sy'n gwella cystadleurwydd ac yn lleihau'r angen i ddibynnu ar gymorthdaliadau gael eu gwella, heb amharu ar faes chwarae gwastad yr UE.
>
> - Mwy o ganolbwyntio ar y farchnad, gan gynnwys llai o bwyslais ar gymorthdaliadau a mesurau sy'n ystumio masnach.
>
> - Parhau i symleiddio'r PAC, gan sicrhau gostyngiad mewn costau a chymhlethdod i ffermwyr a gweinyddiaethau oni bai fod y manteision yn drech na'r costau ...

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU am yr MFF (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011) hefyd yn nodi'r angen am ostyngiad sylweddol yng nghyllideb PAC fel rhan o'i amcanion ehangach i sicrhau

gostyngiad termau real yn nyfodol cyllideb yr UE[6].

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddatganiad ar y cyd â Llywodraeth Gwlad Pŵyl** ar 20 Medi yn galw am ddiwygio dwys a radical o'r PAC, gyda llai o bwyslais ar Golofn 1 a chryfhau Colofn 2 yn rhan ganolog o hyn.

Ar ôl cyhoeddi 'r cynigion diwygio, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddatganiad i'r wasg**. Dywedodd Caroline Spelman, yr Ysgrifennydd Gwladol:

> ...er bod peth o rethreg y Comisiwn yn gywir, rydym, ar y cyfan, yn siomedig a gallai'r cynigion fel y maent ein tynnu yn ôl.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Ym mis Ionawr 2011 daeth y gwahaniaethau rhwng safbwynt Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r PAC a safbwynt Llywodraeth Cymru a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i'r amlwg yn gyheoddus iawn pan gyhoeddwyd **safbwynt ar y cyd** wedi'i lofnodi gan Weinidogion Materion Gwledig y Gweinyddiaethau Datganoledig. Roedd y datganiad hwn yn beirniadu safbwynt Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r PAC, ac yn galw am newid agwedd yn seiliedig ar dair blaenoriaeth:

- sicrhau cyfran deg a chymesur o gyllideb gyffredinol y PAC;
- sicrhau hyblygrwydd rhanbarthol yn nwy golofn y PAC;a
- sicrhau mwy o symlrwydd o'r PAC.

Cyhoeddodd **Gweinidog Materion Gwledig blaenorol** Llywodraeth Cymru **ddatganiad** ar 17 Ionawr 2011 mewn ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn ar ddyfodol y PAC, a oedd yn nodi pum prif ganlyniad i ddiwygio'r PAC:

- cynnal y cymorth uniongyrchol (i ffermwyr);
- darparu'r sail ar gyfer cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy;
- cryfhau cystadleurwydd diwydiannau ar y tir;
- cydnabod rôl ffermio o ran diogelu a gwella asedion naturiol Cymru; a
- chyfrannu at ddatblygiad economaidd-gymdeithasol ein cymunedau gwledig.

Ar 5 Gorffennaf, gwnaeth Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd **ddatganiad llafar ar ddiwygio'r PAC** fel rhan o'i ymateb i gyhoeddi cynigion MFF y Comisiwn ym mis Mehefin 2011. Mewn **datganiad a gyhoeddwyd ar 12 Hydref** estynnodd y Dirprwy Weinidog "groeso pwyllog" i gynigion y Comisiwn.

Tynnodd sylw ar yr heriau i gymru wrth symud tuag at daliadau yn seiliedig ar ardaloedd a thaliadau uniongyrchol gwyrdd. Dywedodd y bydd yn pwyso am gynnydd yng nghyfran y DU a Chymru o ddyraniad Datblygu Gwledig yr UE, a'i fod yn

> ...parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i lywio safbwynt negodi'r DU a chyfeiriad polisi'r PAC

## Cynnydd y goflen yn Sefydliadau'r UE

***Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru wrth i drafodaethau ddigwydd ym Mrwsel ac wrth i safbwynt swyddogol Sefydliadau'r UE ddod yn eglur.***

### Senedd Ewrop:

Y prif Bwyllgor ar gyfer diwygio'r PAC fydd y Pwyllgor Amaeth, a gaiff ei gadeirio gan yr Eidalwr Paolo de Castro ASE (Sosialwyr a Democratiaid – S a D), a chyfarfu ag aelodau o Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad ym mis Medi 2010.

Y prif rapporterus ar gyfer y cynigion deddfwriaethol sydd fwyaf perthnasol i Gymru yw:

- Rheoliad Taliadau Uniongyrchol – **Luis Capoulas Santos ASE o Bortiwgal** (S a D)
- Rheoliad Datblygu Gwledig - **Luis Capoulas**

[6] See **UK Government EM on MFF**. The second objective is to defend the UK rebate.

**Santos ASE**

- Rheoliad Llorweddol – **Giovanni La Via ASE o'r Eidal (EPP)**
- Rheoliad CMO – **Michel Dantin ASE o Ffrainc (EPP)**

Cynhaliodd Senedd Ewrop drafodaeth gyntaf yn ystod cyflwyno'r cynigion gan Gomisiynydd Amaeth yr UE ar 12 Hydref. Rhoddodd Luis Capoulas Santos ASE, Prif Rapporteur y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, ymateb beirniadol cryf i gynnig y Comisiwn, gan ddweud y byddai angen ei wella llawer i gael cefnogaeth y Senedd, gan feirniadu'n arbennig natur or-fiwrocrataidd y cynigion[7].

## Cyngor y Gweinidogion:

Mae'r Cyngor Amaeth yn cwrdd yn fisol a bydd yn cynnal ei ddadl gyntaf ar y pecyn diwygio ar 20 Hydref.
Mae nifer o Aelod Wladwriaethau wedi mynegi eu hymateb cyntaf i'r cynigion.

Dywedodd **Bruno Le Maire, Gweinidog Amaeth Ffrainc,** ei fod yn cefnogi egwyddor gwyrdd y PAC ond nad oedd yn cytuno â'r agwedd a gynigiwyd gan y Comisiwn, gan ddweud fod angen agwedd symlach sy'n cydweddu â realiti economaidd y byd ffermio.
Mae **Gweinidog Amaeth yr Almaen** yn gwrthwynebu capio ffermydd mawr, sydd hefyd yn rhywbeth y mae undebau ffermwyr y DU yn ei wrthwynebu.

## Eraill:

Mae'r canlynol yn lincs cyffredin i wefannau sy'n cynnwys ymatebion i gynigion diwygio'r PAC:

- **Euractiv**, gwasanaeth y wasg ar-lein, sydd â **chrynodeb ardderchog o'r ymatebion cyntaf** i'r cynigion, gan gynnwys **rhestr gynhwysfawr** o'r lincs i farn rhwydweithiau amrywiol yr UE a sefydliadau lobïo
- **EU Observer**: un arall o wasanaethau'r wasg ar-lein
- **Farmers Weekly Interactive**: Mae hon yn cynnwys lincs i ymatebion ar gyfer rhanddeiliaid allweddol y diwydiant.

Gweler y canlynol, hefyd, am rai ymatebion penodol:

- **NFU Cymru**
- **Undeb Amaethwyr Cymru**
- **RSPB Cymru**
- **Pwyllgor y Rhanbarthau**

Er mwyn cael ychydig o flas yr ymatebion hyn: mae'r ymatebion ar y cyfan wedi bod yn negyddol, ond am wahanol resymau.

**Dywedodd Ed Bailey, Llywydd NFU Cymru** y byddai cynigion diwygio'r PAC yn rhwystr yn hytrach na helpu ffermwyr, gan ddynu sylw'n benodol at bryderon yn ymwneud ag agwedd werdd Colofn 1, ac mae hyn yn farn roedd y sector ffermio ar hyd a lled Ewrop yn ei rhannu. Dywedodd yr FUW y byddai'r cynigion yn dinistrio incwm y sector llaeth yng Nghymru.

Mae'r **lobi amgylcheddol** yn croesawu'r egwyddor o PAC gwyrdd ond mae'n pryderu am y ffordd y mae'r Comisiwn yn argymell gwneud hyn. Mae hyn yn cynnwys pryderon ynghylch trawsgyfeiriad croes o Golofn 2 i Golofn 1, gan eithrio ffermwyr bach o'r mesurau trawsgydymffurfio a'r mesurau gwyrdd yng Ngholofn 1, a phryderon am gynigion i ailgysylltu cymorth â chynhyrchu.

Mae'r RSPB yn disgrifio'r cynigion fel newyddion drwg i fywyd gwyllt a ffermwyr.

[7] Dyfynnwyd yn **Euractiv**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Gregg Jones (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**)

Ffôn. 0032 2 226 6692
Ffôn symudol. 0044 7816 164455

Neu
Nia Seaton (**Nia.Seaton@cymru.gov.uk**)
Estyniad 8987